Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Y Gorlan

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2023**

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol y Gorlan yn gymuned hapus, ofalgar a chartrefol. Un o nodweddion mwyaf effeithiol yr ysgol yw bod staff yn cefnogi lles emosiynol ac yn darparu addysg gyflawn ar gyfer pob disgybl yn llwyddiannus. Maent yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu naws gyfeillgar a chynhwysol ble mae disgyblion yn ymddwyn yn gwrtais ac yn barchus. Mae bron bob disgybl yn dangos gofal tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu ac maent yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae gan ran fwyaf o ddisgyblion lais ym mywyd yr ysgol ac maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd ac oedolion wrth gynllunio profiadau dysgu cyfoethog. Maent yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod gwersi a gweithgareddau sy'n eu hysbrydoli i wneud eu gorau. Er hyn, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd estynedig wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu eu medrau digidol a chreadigol yn dda, ac mae disgyblion hŷn yn datblygu dealltwriaeth gadarn o ddiwylliant, hanes a daearyddiaeth eu cynefin.

Mae gweledigaeth greadigol yr ysgol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm a'r pwyslais cadarn ar werthoedd cytûn yn cefnogi athrawon a staff i ddarparu ystod gyfoethog o brofiadau dysgu diddorol. Mae hyn yn ennyn a chynnal brwdfrydedd, a diwallu anghenion disgyblion yn llwyddiannus. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer defnydd o'r iaith Gymraeg yn gryfder amlwg. Fodd bynnag, nid yw adborth athrawon bob amser yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith a gwneud gwelliannau fwyfwy heriol am eu dysgu.

Mae'r pennaeth ac arweinwyr yn rhannu gweledigaeth glir ar gyfer darparu addysg gyflawn wedi ei seilio ar gynnal lles y disgyblion a chydweithio tuag at y dyfodol. Maent yn canolbwyntio'n dda ar sicrhau bod pob un o'r staff yn teimlo eu bod yn rhan o dîm yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn deall blaenoriaethau'r ysgol ac yn gweithio gyda'i gilydd yn gefnogol. Er hyn, nid yw trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella'r ysgol yn ddigon effeithiol i adnabod eu cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r rhan fwyaf o lywodraethwyr yn gweithio'n dda gydag arweinwyr i gefnogi'r staff a'r pennaeth ar drefniadau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid yw aelodau'r corff llywodraethol yn rhan o gynllunio strategol yr ysgol yn ddigon effeithiol er mwyn ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen.

# Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A2 Darparu adborth penodol er mwyn i ddisgyblion ymestyn eu gwaith hyd eithaf eu gallu

A3 Sicrhau trefniadau hunanwerthuso a chynllunio er mwyn i'r ysgol adnabod eu cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella

A4 Sicrhau bod y llywodraethwyr yn rhan o gynllunio strategol yr ysgol er mwyn ysgogi'r newidiadau sydd eu hangen

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol y Gorlan |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer o ddisgyblion ar y gofrestr | 113 |
| Nifer o ddisgyblion o oedran ysgol statudol | 84 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yn berthnasol) | 14 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 23.0%) | 10.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 16.1%) | 16.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 73.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/04/2014 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 13/05/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolydiad | 30/01/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/04/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.